# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Fideo Gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 15 Hydref 2020

Amser: 09.25 - 12.36

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6544

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Lynne Neagle AS (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AS (Cadeirydd dros dro)<br>Hefin David AS<br>Suzy Davies AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Laura Anne Jones AS |
| Tystion: | Angela Keller, Gwasanaeth Addysg Gatholig<br>Elizabeth Thomas, Yr Eglwys yng Nghymru<br>Paula Webber, Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol. (CYSAGau)<br>Libby Jones, y Panel Ymgynghori Cenedlaethol ar Addysg Grefyddol (PYCAG)<br>Dr Ruth Wareham, Dyneiddwyr y DU<br>Kathy Riddick, Dyneiddwyr y DU<br>Alastair Lichten, y Gymdeithas Seciwlar Genedlaethol |
| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Phil Boshier (Ymchwilydd)<br>Michael Dauncey (Ymchwilydd)<br>Sian Hughes (Ymchwilydd)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd)<br>Lisa Salkeld (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Rhiannon Lewis (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Masudah Ali (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Yn sgil methiant technegol, yn unol â Rheol Sefydlog 17.22, cadeiriwyd y cyfarfod dros dro gan Dawn Bowden AS wrth i Lynne Neagle, y Cadeirydd, ail-ymuno.

1.2 Croesawodd Dawn Bowden AS yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

1.3 Dywedodd Dawn Bowden AS fod y Cadeirydd, yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd, ond bod y cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv.

1.4 Nodwyd ymddiheuriadau gan Suzy Davies AS ar gyfer yr ail sesiwn dystiolaeth.

## 2 Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): Sesiwn Dystiolaeth 10 gyda Chynrychiolwyr Grwpiau Ffydd, Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru a'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gwasanaeth Addysg Gatholig, yr Eglwys yng Nghymru, Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAGau) a'r Panel Ymgynghori Cenedlaethol ar Addysg Grefyddol (PYCAG)

2.2 Cytunodd y Gwasanaeth Addysg Gatholig i rannu â'r Pwyllgor bapur ganddo sy’n manylu ei bryderon ynghylch effaith darparu dau faes llafur o bosibl o dan ddarpariaethau CGM y Bil.

## 3 Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) – sesiwn dystiolaeth 11 gyda chynrychiolwyr grwpiau anghrefyddol

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ddyneiddwyr y DU a'r Gymdeithas Seciwlar Genedlaethol.

## 4 Papurau i’w nodi

4.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiynau blaenorol.

## 7 Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): cyflwyno'r dadansoddiad o dystiolaeth ysgrifenedig

7.1 Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Wavehill o'r dadansoddiad o dystiolaeth ysgrifenedig.

## 8 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor

8.1 Oherwydd prinder amser, symudwyd yr eitem hon i'r cyfarfod nesaf, a gynhelir ar 21 Hydref 2020.